



Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae Ysgol Gymraeg y Gwernant yn Ysgol gymunedol yn Sir Ddinbych, yr Awdurdod Lleol (ALI) yw Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a nhw yw cyflogwr yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol. Yr ALI sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am lechyd, Diogelwch a Lles. Mae'r ALI yn cydnabod ei ymrwymadau cymdeithasol a moesol i gadw pobl yn ddiogel a'i ddyletswydd statudol i gydymffurfio â gofynion "Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974." Bydd yr ALI yn darparu'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar yr ysgol i helpu diogelu lechyd, Diogelwch a Lles eu holl weithwyr ac eraill y gallai eu gweithredoedd a'u gweithgareddau effeithio arnynt "cyn belled fod hynny'n rhesymol yn ymarferol".

Mae rheolaeth Ysgol Gymraeg y Gwernant o ddydd i ddydd dan reolaeth uniongyrchol y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, nhw yw'r "meddwl sy'n rheoli" a byddant yn atebol at ei gilydd am reoli lechyd, Diogelwch a Lles yn amgylchedd yr ysgol.

Polisi'r ysgol yw:

- Hyrwyddo safonau lechyd, Diogelwch a Lles sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle a'i is-deddfwriaethau.
- Hyrwyddo safon diogelwch tân sy'n cydymffurfio â gofynion "Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005"
- Darparu a chynnal gweithleoedd, amgylcheddau gwaith, systemau diogel a dulliau gweithio diogel ac iach a diogelu pob gweithiwr ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithredoedd eraill effeithio arnynt.
- Darparu a chynnal amgylchedd addysgol diogel ac iach ar gyfer disgyblion, rhieni, ymwelwyr, contractwyr ac unrhyw bobl eraill y gallai gweithredoedd a gweithgareddau'r ysgol effeithio arnynt.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol i bob unigolyn a allai fod yn ymwneud â gweithgareddau mewn perthynas â'r ysgol.
- Datblygu ymwybyddiaeth diogelwch a sicrhau arferion gorau i gynnal diwylliant diogelwch cadarnhaol drwy'r ysgol ac yn ystod gweithgareddau yn ymwneud â'r ysgol.
- Sicrhau fod cyfathrebu ac ymgynghori addas a digonol mewn perthynas ag Iechyd, Diogelwch a Lles rhwng y cyflogwyr, y gweithwyr ac eraill y gallai gweithgareddau'r ysgol effeithio arnynt.
- Bydd yr ysgol yn derbyn cymorth a chynghor cymwys ar iechyd a diogelwch.
- Byddwn yn rhoi gwybod i'r holl weithwyr am y polisi hwn.
- Sicrhau gweithrediad llwyddiannus y polisi a chydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol, mae angen ymrwymiad a chefnogaeth arnom gan bob gweithiwr ac eraill sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r ysgol
- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol.

Llofnod _____ Enw _____ Pennaeth Dyddiad _____

Llofnod _____ Enw _____ Pennaeth Dyddiad _____